# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 23 Mai 2019

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

**Ar 15 Mai 2019, penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod hwn a dechrau'r cyfarfod ar 5 Mehefin 2019**

## 1 Ystyried cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

(09.00-09.30) (Tudalennau 1 - 3)

Papur 1 - Ystyried y cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Llyfryn ymgynghori

## 2 Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru - Cynigion i ddiwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018

(09.30-09.45) (Tudalennau 4 - 14)

Papur 2 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd - 9 Mai 2019

Papur 3 - Llywodraeth Cymru - Dogfen Ymgynghori: Diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018

## 3 Blaenraglen waith

(09.45-10.00) (Tudalennau 15 - 18)

Papur 4 - Blaenraglen waith: Haf 2019

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

## 4 Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21

(10.00-10.15) (Tudalennau 19 - 22)

Papur 5 – Dulliau o ymgysylltu â rhanddeiliaid

## 5 Cyllideb Atodol Gyntaf Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2019-20

(10.15-10.25) (Tudalennau 23 - 31)

Papur 6 – Memorandwm Esboniadol, Cyllideb Atodol Gyntaf Comisiwn y Cynulliad 2019-20

# Eitem 1

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd

9 Mai 2019

Annwyl Llyr,

Ceir copi ynghlwm o ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan o gam nesaf yr ymarfer i alinio ffin y gyllideb a chyfrifyddu Llywodraeth Cymru â ffin y gyllideb a ddefnyddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer rheoli gwariant cyhoeddus - argymhelliad o ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid blaenorol i'r Arferion Gorau o ran y Gyllideb.

Mae'r cam hwn wedi'i dargedu at cyrff cyhoeddus a ganlyn yn y llywodraeth ganolog yng Nghymru:

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Banc Datblygu Cymru
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Sector Development Wales Partnership Ei Mawrhydi Ltd
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Busnes Rhyngwladol Cymru
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfa Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Cymwysterau Cymru
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Elusennau GIG Cymru fel y'u diffinnir gan adran 150(4) o Ddeddf Elusennau 2011

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddem yn croesawu unrhyw farn sydd gan y Pwyllgor erbyn 31 Gorffennaf  2019.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

**Rhif: WG37774**

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018

Dyddiad cyhoeddi: 1 Mai 2019
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 31 Gorffennaf 2019

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn am gynigion ar gyfer diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018. |
| **Sut i ymateb** | Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost/y post i'r cyfeiriad isod erbyn **dydd Llun 31 Gorffennaf 2019** fan bellaf. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Mae fersiynau print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais.** |
| **Manylion cyswllt:** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Lisa Cooper<br>Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: Lisa.Cooper@llyw.cymru<br><br>rhif ffôn:  03000 256315 |

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 i gynnwys mwy o gyrff cyhoeddus Cymreig penodol yn yr atodlen o gyrff dynodedig. Mae Adran 126A(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i gynnig Cyllidebol gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r adnoddau y disgwylir y bydd unrhyw gorff sydd wedi'i ddynodi o fewn y gorchymyn hwnnw yn eu defnyddio.

Diben y gorchymyn yw helpu i sicrhau bod yr adrodd ariannol gan Lywodraeth Cymru ar draws y tri phrif gam o'r broses ariannol - cynllunio, cymeradwyo gan y Cynulliad ac alldro yn erbyn gwariant - yn cael ei alinio'n well. Mae'r tri cham hwn yn cael eu cynrychioli yn y dogfennau allweddol - Cyllideb Llywodraeth Cymru, Cynnig y Gyllideb, a Chyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru. Bydd alinio yn symleiddio'r system bresennol ac yn rhoi mwy o gysondeb a thryloywder i gyllid Llywodraeth Cymru a bydd atebolrwydd mwy eglur i'r Cynulliad a'r cyhoedd.

## Cefndir

Fel ymateb i ymchwiliad Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad i'r Arferion Gorau o ran y Gyllideb[1], cytunodd Llywodraeth Cymru mewn egwyddor i gynnal ymarfer i alinio'r ffiniau cyllidebol a chyfrifyddu. Byddai'r ymarfer hwn yn sicrhau bod cyfrifon Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r un ffin ar gyfer y gyllideb a gyflwynir i'r Cynulliad ag a ddefnyddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer rheoli gwariant cyhoeddus.

### Ffin Trysorlys Ei Mawrhydi

Mae'r ffin a ddefnyddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer rheoli gwariant cyhoeddus yn cynnwys pob corff cyhoeddus sy'n cael ei ddosbarthu i'r sector Llywodraeth Ganolog gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol at ddibenion y Cyfrifon Gwladol. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dosbarthu cyrff cyhoeddus yn unol â System Cyfrifon Ewropeaidd 2010.

### Dosbarthu i'r sector llywodraeth ganolog

Wrth asesu a yw sefydliad yn y sector llywodraeth ganolog, rhaid gofyn y cwestiwn sylfaenol 'a yw'r llywodraeth yn arfer cryn reolaeth dros bolisi corfforaethol cyffredinol yr uned?'. Gallai hynny fod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol a gellid rhoi tystiolaeth drwy ddangosyddion sy'n cynnwys:

- Y gallu i benodi'r rheini sydd mewn rheolaeth, neu'r rheini sy'n pennu polisi'r endid: a / neu

[1] http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld10174/gen-ld10174-w.pdf

- Yr hawl i gael ymgynghori ynghylch penodiadau o'r fath, neu i gael feto dros benodiadau; a / neu
- Darpariaeth cyllid ynghyd â hawliau i reoli sut y dylid gwario'r cyllid hwnnw; a / neu
- Hawl gyffredinol i reoli'r modd y caiff y corff ei redeg o ddydd i ddydd;
- Yn cael 50 y cant neu lai o'i incwm o weithgareddau sy'n gyfan gwbl fasnachol.

Er mwyn alinio ffin y gyllideb a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru i'r Cynulliad ei chymeradwyo â ffin y gyllideb a ddefnyddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi i reoli gwariant cyhoeddus, rhaid i gyrff cyhoeddus Llywodraeth Cymru, sydd wedi'u dosbarthu i'r sector llywodraeth ganolog, gael eu dosbarthu'n gyntaf o dan adran 126A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Lle y bo'n berthnasol, caiff y corff ei gydgrynhoi hefyd yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru.

Fel hyn, bydd aliniad rhwng y ffiniau ar draws y tair dogfen allweddol – cynlluniau cyllidebol; Cynnig y Gyllideb; a Chyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru – gan sicrhau cysondeb a mwy o dryloywder mewn perthynas â gwariant Llywodraeth Cymru.

Mae'n bwysig nodi bod yr asesiadau ar gyfer dosbarthu, ac ar gyfer dynodi felly, yn cael eu cynnal at ddibenion ariannol yn unig. Nid yw'r asesiadau hyn yn effeithio ar berchnogaeth gyfreithiol na strwythurau rheoli cyrff cyhoeddus, nac ar eu gallu i weithredu gyda graddau priodol o annibyniaeth wrth Weinidogion Cymru.

Fel arfer, bydd angen amrywiol raddau o oruchwyliaeth a rheolaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyrff cyhoeddus sy'n cael eu dosbarthu i'r sector llywodraeth ganolog a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer pob corff.

Gan fod cyrff sydd wedi'u dosbarthu i'r sector llywodraeth ganolog eisoes wedi'u cynnwys yn ffin gyllidebol Llywodraeth Cymru, ni ddylai'r alinio gael unrhyw effaith ar lefel yr adnoddau a ddarperir i'r corff.

Bydd alinio â ffin y gyllideb a gyflwynir i'r Cynulliad ei chymeradwyo yn golygu y bydd y Cynulliad yn pleidleisio ar adnoddau'r corff hwnnw, ac nid yn unig ar y llif arian y mae'n ei dderbyn fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. O ganlyniad, bydd adnoddau'r corff yn ddarostyngedig i reolaethau'r Cynulliad o fewn cwmpas cynnig y gyllideb.

Os ystyrir ei bod yn berthnasol ei gydgrynhoi yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru, byddai rhaid i'r corff ddarparu gwybodaeth ariannol ar fformat ac erbyn dyddiad cau a ragnodir gan Lywodraeth Cymru.

**Gweithredu**

Mae'r ymarfer hwn yn cael ei gynnal fesul cam. Canolbwyntiodd y cam cyntaf ar gyrff sydd wedi'u cydgrynhoi yng nghyfrifon adnoddau Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Yn sgil y cam hwn, cafodd Byrddau Iechyd Lleol Cymru; Careers Choices – Dewis Gyrfa Ltd a Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales eu dynodi yng Ngorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2016 a osodwyd ar 18 Tachwedd 2016.

Felly roedd Cynnig y Gyllideb Flynyddol ar gyfer 2017-18, a gafodd ei gymeradwyo gan y Cynulliad ar 20 Ionawr 2017, yn cynnwys adnoddau'r cyrff hynny a ddynodwyd yn y Gorchymyn, ac yn alinio cyllid y cyrff hynny yn llawn ar draws Cwmpas cyllidebol Llywodraeth Cymru yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol, a'r cyfrifon adnoddau.

**Cam 2**

Roedd Cam 2 yn canolbwyntio ar ddynodi Ymddiriedolaethau Iechyd Cymru ac is-gwmnïau Llywodraeth Cymru. O 2018-19 ymlaen, bydd y cyrff hynny'n cael eu cynnwys yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru lle bo hynny'n berthnasol.

**Cam 3**

Roedd Cam 3 yn cydgrynhoi ac yn disodli'r ddau orchymyn cyntaf ac yn dynodi Trafnidiaeth Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru a'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol. O 2018-19 ymlaen, bydd y cyrff hyn yn cael eu cydgrynhoi yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru lle bo hynny'n berthnasol.

**Y cam nesaf**

Mae cam nesaf yr ymarferiad alinio hwn yn canolbwyntio ar bob un o'r cyrff cyhoeddus eraill sydd wedi'u dosbarthu i'r sector llywodraeth ganolog. Mae'r cyrff y bwriadir eu hailddynodi wedi'u rhestru yn Atodiad A. Yn bennaf, mae'r rhain yn:

- Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru
- Cyrff Comisynwyr
- Elusennau'r GIG yng Nghymru fel y'u diffinnir gan adran 150(4) o Ddeddf Elusennau 2011

Gan fod yr holl gyrff a restrwyd wedi'u dosbarthu, neu ystyrir eu bod wedi'u ddosbarthu, i'r sector llywodraeth ganolog gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, maent wedi'u cynnwys o fewn y ffin a ddefnyddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer rheoli gwariant cyhoeddus, hy cynlluniau Cyllideb Llywodraeth Cymru.

Er mwyn alinio'r cyrff hyn o fewn y ffin a ddefnyddir ar gyfer y gyllideb a gyflwynir i'r Cynulliad ei chymeradwyo, hy o fewn Cynnig y Gyllideb, cynigir y dylid diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2016 i gynnwys y cyrff hyn yn yr atodlen o gyrff dynodedig. Os yn berthnasol, caiff y cyrff hyn eu cydgrynhoi hefyd yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru.

Bydd dynodi'r cyrff cyhoeddus hyn yn golygu y bydd eu hadnoddau, ac nid dim ond yr arian y maent yn ei dderbyn, yn destun pleidlais yn y Cynulliad. Mae'r adnoddau hyn yn ddarostyngedig i reolaethau'r Cynulliad o fewn cwmpas cynnig y gyllideb.

## Rydym am glywed eich barn ynglŷn â dynodi eich sefydliad chi ac alinio ei adnoddau â ffin gyllidebol a chyfrifyddu Llywodraeth Cymru.

Mae rhestr o'r cyrff yng Nghymru yr ymgynghorir â nhw ar gael yn Atodiad B.

## Canlyniadau

Yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad hwn byddwn yn ystyried pob ymateb a ddaw i law erbyn y dyddiad cau, sef 31 Gorffennaf 2019, ac yn cyhoeddi ymateb ym mis Awst 2019. Bydd yr ymateb hwn yn cynnwys rhestr o'r cyrff cyhoeddus a fydd yn cael eu cynnwys yn y gorchymyn dynodi, a bydd hefyd yn nodi'r rheini y dylid eu hystyried ymhellach a'r rheini a fydd yn cael eu heithrio, lle y bo'n briodol.

Cynigir y bydd y gorchymyn diwygio 2019 yn cael ei osod ym mis Tachwedd 2019.

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgyngoriadau yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: ☐

**Atodiad A: Cyrff "llywodraeth ganolog" Cymreig y cynigir eu dynodi – y cam nesaf**

| |
|---|
| Cyngor Celfyddydau Cymru |
| Comisiynydd Plant Cymru |
| Comisiynydd y Gymraeg |
| Banc Datblygu Cymru (yn amodol ar gael ei ddosbarthu) |
| Cyngor y Gweithlu Addysg |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru |
| Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Ngymru (Estyn) |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| Busnes Rhyngwladol Cymru |
| Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru |
| Amgueddfa Genedlaethol Cymru |
| Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Cymwysterau Cymru |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru |
| Gofal Cymdeithasol Cymru |
| Cyngor Chwaraeon Cymru |
| Elusennau Byrddau Iechyd Cymru fel y'u diffinnir yn adran 150(4) o Ddeddf Elusennau 2011 |

## Atodiad B: Rhestr o'r rhai yr ymgynghorir â nhw

| |
|---|
| Cyngor Celfyddydau Cymru |
| Comisiynydd Plant Cymru |
| Comisiynydd y Gymraeg |
| Banc Datblygu Cymru (yn amodol ar gael ei ddosbarthu) |
| Cyngor y Gweithlu Addysg |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru |
| Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Ngymru (Estyn) |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru |
| Busnes Rhyngwladol Cymru |
| Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru |
| Amgueddfa Genedlaethol Cymru |
| Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Cymwysterau Cymru |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru |
| Gofal Cymdeithasol Cymru |
| Cyngor Chwaraeon Cymru |
| Elusennau Byrddau Iechyd Cymru fel y'u diffinnir yn adran 150(4) o Ddeddf Elusennau 2011 |
| Trysorlys Ei Mawrhydi |
| Swyddfa Archwilio Cymru |
| Y Pwyllgor Cyllid |

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 5

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# **Cyllideb Atodol 2019-20:** Memorandwm Esboniadol

Mai 2019





www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Cysylltu@cynulliad.cymru**
Twitter: **@CynulliadCymru**

---

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# **Cyllideb Atodol 2019-20:** Memorandwm Esboniadol

Mai 2019



www.cynulliad.cymru


Croeso
i'r Senedd
—
Welcome
to the
Senedd

# Cynnwys

**1. Y cefndir....................6**

**1.1. Memorandwm Esboniadol....................6**

**1.2. Gwasanaethau'r Cynulliad....................6**

**1.3. Effaith y gyllideb....................7**

**2. Cwmpas y gyllideb....................8**

# 1. Y cefndir

Cafodd Cyllideb y Comisiwn **ar gyfer 2019-20** ei chynnwys yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Tachwedd 2018, ar ôl bod yn destun gwaith craffu gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad.

Roedd cynnig y gyllideb yn rhoi Cyllideb Adnoddau gwerth £57.023 miliwn i'r Comisiwn, gan gynnwys:

- £39.326 miliwn ar gyfer gwasanaethau'r Cynulliad; ac
- £16.197 miliwn ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Darparwyd £1.500 miliwn ychwanegol ar gyfer addasiadau cyfrifyddu nad ydynt yn arian parod mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad, a hynny drwy'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

Gosodir y Memorandwm Esboniadol hwn i gydymffurfio â Rheol Sefydlog 20.32, gan gefnogi newidiadau i'w cynnig i gyllideb gymeradwy y Comisiwn, drwy Gynnig ar y Gyllideb Atodol.

## 1.1. Memorandwm Esboniadol

Effaith cyllideb atodol y Comisiwn fydd cynyddu cyllideb gwasanaethau'r Cynulliad yn unol â rhagamcanion.

## 1.2. Gwasanaethau'r Cynulliad

Mae'r gyfran o gyllideb y Comisiwn sydd wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaethau'r Cynulliad yn darparu adnoddau i'w defnyddio gan Gomisiwn y Cynulliad ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu gwasanaethau i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"); hyrwyddo'r Cynulliad, gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; ac unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu'r Comisiwn.

Mae cyllideb gwasanaethau'r Cynulliad yn bennaf yn cynnwys cronfeydd i dalu am gyllideb weithredol y Comisiwn, er enghraifft:

- Cyflogau staff a chostau cysylltiedig;

- Costau adeiladau a chyfleusterau;
- Costau TGCh; a
- Chostau eraill; er enghraifft, y ffi archwilio, costau cyfieithu, costau hyfforddiant a chostau teithio.

Fel y nodwyd yng nghyllideb y Comisiwn ar gyfer 2019-20, a osodwyd ym mis Tachwedd 2018, ni ellid cyfrifo'r costau terfynol sy'n gysylltiedig â chyfraniadau'r cyflogwr at Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn fanwl gywir hyd nes bod cadarnhad o'r cynnydd disgwyliedig wedi dod i law gan Swyddfa'r Cabinet. Cafodd amcangyfrif ei gynnwys o fewn naratif dogfen y gyllideb a osodwyd. Roedd hyn yn seiliedig ar y disgwyliad ar y pryd, ac amcangyfrifwyd cynnydd posibl o tua £1 miliwn.

Mae cadarnhad o'r cynnydd hwn bellach wedi dod i law, a'r amcangyfrif presennol o effaith y cynnydd yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwr at gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yw £0.965 miliwn. Mae'r gyllideb atodol hon yn cynyddu'r gofyniad yn llinell y gyllideb ar gyfer gwasanaethau'r Cynulliad gan £0.965 miliwn i ariannu'r cynnydd disgwyliedig yng nghyfraniad y cyflogwr a fydd yn effeithio ar gyllideb y Comisiwn yn ystod 2019-20.

Felly mae'r Comisiwn yn cynnig cyllideb atodol o £40.291 miliwn ar gyfer gwasanaethau'r Cynulliad.

## 1.3. Effaith y gyllideb

Mae'r cynnig ar y Gyllideb Atodol yn cynnig yr eitem a ganlyn:

- cynnydd o £0.965 miliwn yng nghyllideb gwasanaethau'r Cynulliad i £40.291 miliwn.

# 2. Cwmpas y gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20 y Cynulliad Cenedlaethol i helpu i lunio Cynnig y Gyllideb sy'n ofynnol yn ôl Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad hwn yn ceisio diwygio gofynion Comisiwn y Cynulliad o ran adnoddau a gwariant a reolir yn flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2020.

Mae Cynnig y Gyllideb Atodol yn awdurdodi'r cam o ddefnyddio'r adnoddau net ar gyfer gwasanaethau a dibenion yr Aelodau a Gwasanaethau'r Cynulliad. Mae'r cynnig yn cynnwys uchafswm yr incwm (neu'r adnoddau cronnus) y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau hynny ac at y dibenion hynny yn hytrach na'i fod yn cael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru, a'r arian parod y bydd angen ei gael o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y cyfansymiau net y rhagwelir y bydd y Comisiwn yn gorfod eu talu.

Mae cyllideb ddiwygiedig Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2019-20, sy'n cynnwys y gofynion diwygiedig, i'w gweld yn Nhabl 1 isod.

| **Tabl 1** | **Gofynion diwygiedig £000** |
|---|---|
| Adnoddau heblaw am adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Comisiwn) ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu gwasanaethau i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"); hyrwyddo'r Cynulliad, gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; ac unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu'r Comisiwn.<br>Adnoddau ar wahân i arian cronnus i'w defnyddio gan y Comisiwn mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau a gwariant sy'n gysylltiedig â darpariaeth Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. | 57,988 |
| Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan y Comisiwn:<br>▪ o'r broses o gael gwared ar asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog; neu<br>▪ incwm rhent; rhoddion; cymorth grant; ad-daliadau ac incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill i'w defnyddio ar gyfer costau gweinyddu'r Cynulliad. | 220 |
| Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu o fewn y flwyddyn mewn perthynas â'r gwasanaethau uchod ac at ddibenion ar wahân i dderbynebau y gellir eu cadw a TAW y gellir ei hadennill. | 54,588 |

Mae tabl 2 isod yn cysoni'r gofyniad adnodd net â'r gofyniad i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

| **Tabl 2: Gofyniad ariannol** | **£000**<br><br>**2019-20**<br>**Wedi'i adolygu** |
|---|---:|
| Gofyniad Refeniw'r Aelodau | 16,197 |
| Gofyniad Refeniw'r Comisiwn | 39,791 |
| Gofyniad Cyfalaf | 500 |
| Darpariaeth Pensiwn Aelodau'r Cynulliad (gwariant a reolir yn flynyddol) | 1,500 |
| **Is-gyfanswm** | **57,988** |
| *Addasiadau:* | |
| Dibrisiant (nad yw'n arian parod) | (2,250) |
| Newidiadau mewn darpariaethau | (1,500) |
| Newidiadau o ran y dyledwyr a'r credydwyr | 350 |
| **Is-gyfanswm** | **(3,400)** |
| **Gofyniad arian parod net i'w gyhoeddi o Gronfa Gyfunol Cymru** | **54,588** |